| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Archwilio Perfformiad** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **20 Mehefin 2013** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Y Cydlynydd Archwilio** |
| **Teitl:** | **Rhaglen Waith Archwilio** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad yn cyflwyno drafft rhaglen waith i'r dyfodol y Pwyllgor Archwilio Perfformiad er mwyn i'r aelodau ei hystyried.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

I gael  y Pwyllgor i adolygu a chytuno'i raglen waith i'r dyfodol a rhoi'r diweddariad i'r aelodau ar faterion perthnasol.

## 3. Beth yw'r argymhellion?

Bod y Pwyllgor yn ystyried y wybodaeth a ddarperir ac yn cymeradwyo, yn diwygio neu'n newid eu rhaglen waith i'r dyfodol fel yr ystyrid briodol.

## 4. Manylion am yr adroddiad.

4.1 Mae Erthygl 6 Cyfansoddiad Cyngor Sir Ddinbych yn gosod cylch gorchwyl, swyddogaethau ac aelodaeth pob Pwyllgor Archwilio, tra bo rheolau'r gweithdrefnau i bwyllgorau archwilio wedi'u gosod yn Rhan 4 y Cyfansoddiad.

4.2 Mae'r Cyfansoddiad yn amodi bod yn rhaid i bwyllgorau archwilio'r Cyngor baratoi ac adolygu rhaglen ar gyfer eu gwaith i'r dyfodol. Trwy adolygu a blaenoriaethu materion, gall aelodau sicrhau fod y rhaglen waith yn cyflwyno rhaglen dan arweiniad yr aelodau.

4.3 Arfer sydd wedi'i fabwysiadu yn Sir Ddinbych ers nifer o flynyddoedd yw bod pwyllgorau archwilio'n cyfyngu ar nifer yr adroddiadau a ystyrir mewn unrhyw un cyfarfod i uchafswm o bedwar, yn ogystal ag adroddiad rhaglen waith y Pwyllgor ei hun. Nod y dull hwn yw hwyluso trafodaeth fanwl ac effeithiol ar bob pwnc.

4.4 Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried ei raglen waith ddrafft ar gyfer cyfarfodydd y dyfodol, fel y manylir yn atodiad 1, a'i chymeradwyo, ei diwygio neu ei newid fel yr ystyrir yn briodol gan ystyried:

- y materion a godwyd gan aelodau'r Pwyllgor
- y materion a gyfeiriwyd ato gan y Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Archwilio

- perthnasedd i flaenoriaethau'r Pwyllgor/y Cyngor/y gymuned
- Cynllun Corfforaethol y Cyngor ac Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol
- bodloni'r llwyth gwaith
- amseroldeb
- canlyniadau
- materion allweddol a gwybodaeth i'w cynnwys mewn adroddiadau
- swyddogion ac/neu aelodau arweiniol y Cabinet y dylid eu gwahodd (gan ystyried oes angen iddynt fod yn bresennol neu a fyddent yn ychwanegu gwerth)
- cwestiynau i'w gofyn i swyddogion/aelodau arweiniol y Cabinet

4.5 Wrth ystyried eitemau i'w cynnwys ar y rhaglen gwaith i'r dyfodol, gall fod yn ddefnyddiol i'r aelodau ystyried y cwestiynau canlynol hefyd wrth benderfynu ar addasrwydd cynnwys pwnc ar y rhaglen waith:

- beth yw'r mater?
- pwy yw'r budd-ddeiliaid?
- beth sy'n cael ei ystyried mewn mannau eraill?
- beth sydd angen i archwilio ei wybod? a
- phwy allai gynorthwyo?

4.6 Fel y crybwyllwyd ym mharagraff 4.2 uchod, mae Cyfansoddiad y Cyngor yn gofyn i bwyllgorau archwilio baratoi ac adolygu rhaglen ar gyfer eu gwaith i'r dyfodol. Er mwyn cynorthwyo'r broses o flaenoriaethu adroddiadau, os yw'r swyddogion o'r farn fod pwnc yn haeddu cael amser i'w drafod ar raglen fusnes y Pwyllgor, mae'n rhaid iddynt wneud cais ffurfiol i'r Pwyllgor ystyried derbyn adroddiad ar y pwnc hwnnw. Gwneir hyn trwy gyflwyno 'ffurflen gynnig' sy'n egluro pwrpas, pwysigrwydd a chanlyniadau posibl y pynciau a awgrymir. Nid oes y fath ffurflen gynnig wedi dod i law i'w hystyried yn y cyfarfod hwn.

<u>Adolygu Cyhoeddiadau'r Cyngor</u>

4.7 Yn wreiddiol trefnwyd cyflwyno canfyddiadau'r adolygiad uchod i'r Pwyllgor yn y cyfarfod presennol. Gan nad oedd Pennaeth y Gwasanaeth yn gallu mynychu'r cyfarfod i gyflwyno'r canlyniadau, gofynnodd a ellid cyflwyno'r eitem mewn cyfarfod yn y dyfodol. Yn anffodus, oherwydd egwyl yr haf ac ymrwymiadau'r rhaglen waith ni all y Pwyllgor gynnwys yr adroddiad ar ei raglen fusnes nes y cyfarfod ym mis Hydref. Gan fod Pennaeth Cyfathrebu, Marchnata a Hamdden yn cyflwyno adroddiad i Bwyllgor Archwilio Cymunedau ym mis Medi ynglŷn ag ailstrwythuro ei Adran, cynigodd bod y ddau bwnc yn cael eu cyfuno mewn un adroddiad a'u cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio Cymunedau ar 12 Medi. Cysylltwyd â Chadeiryddion y ddau bwyllgor archwilio i gael eu cytundeb ar y trefniadau diwygiedig. Cytunodd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio Cymunedau i gynnwys yr adroddiad ar raglen gwaith i'r dyfodol ei bwyllgor ac yn absenoldeb Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio Perfformiad, cytunodd Is-Gadeirydd y Pwyllgor â'r trefniadau newydd. Fel pob adroddiad pwyllgor bydd gan bob un o'r

cynghorwyr sir fynediad at yr adroddiad pan fo papurau pwyllgor y cyfarfod ar 12 Medi yn cael eu cyhoeddi.

4.8 Bydd yr aelodau'n sylwi o Atodiad 1 bod pum eitem ar raglen waith cyfarfod nesaf y Pwyllgor ar 19 Medi. Gan ystyried y wybodaeth ym mharagraff 4.3 uchod am uchafswm nifer yr adroddiadau y dylid eu hystyried mewn un cyfarfod, gofynnir i'r Pwyllgor drafod a yw'n dymuno aildrefnu unrhyw un o'r adroddiadau sydd wedi'u rhestru i'w cyflwyno yn y cyfarfod ym mis Medi, neu a yw'n dymuno derbyn unrhyw un ohonynt fel adroddiadau gwybodaeth neu ymgynghoriad tu allan i'r cyfarfod ffurfiol.

Rhaglen Gwaith i'r dyfodol y Cabinet

4.9 Wrth benderfynu ar eu rhaglen waith i'r dyfodol, mae'n ddefnyddiol bod pwyllgorau archwilio yn ystyried amserlen rhaglen waith y Cabinet. I'r diben hwn, mae copi o raglen waith i'r dyfodol y Cabinet ynghlwm yn Atodiad 2.

Cynnydd ar Benderfyniadau'r Pwyllgor

4.10 Mae tabl sy'n crynhoi penderfyniadau diweddar y Pwyllgor ac sy'n rhoi gwybod i aelodau am gynnydd o ran eu gweithrediad ynghlwm yn Atodiad 3 i'r adroddiad hwn.

## 5. Y Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Archwilio

Dan drefniadau archwilio'r Cyngor, mae'r Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Archwilio'n perfformio rôl pwyllgor cydlynu. Mae'r Grŵp yn cyfarfod am y tro cyntaf eleni ar 27 Mehefin 2013.

## 6. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Bydd archwilio effeithiol yn cynorthwyo'r Cyngor i gyflawni ei flaenoriaethau corfforaethol yn unol ag anghenion y gymuned a dymuniadau'r trigolion. Bydd datblygiad ac adolygiad parhaus o raglen waith gydlynol yn cynorthwyo'r Cyngor wrth fonitro ac adolygu materion polisi.

## 7. Beth yw'r prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar gydraddoldeb a gynhaliwyd am y penderfyniad? Dylid cynnwys yr Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gwblhawyd fel atodiad i'r adroddiad.

Ni chynhaliwyd Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb er diben yr adroddiad hwn gan nad yw yn debygol fod ystyried rhaglen waith i'r dyfodol y Pwyllgor yn debyg o gael effaith andwyol neu annheg ar bobl sy'n rhannu nodweddion sydd wedi'u diogelu.

**8. Beth fydd yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Efallai y bydd angen i wasanaethau dyrannu amser swyddog i gynorthwyo'r Pwyllgor gyda'r gweithgareddau a nodwyd yn y raglen waith i'r dyfodol a gydag unrhyw gamau a allai ddeillio o'r ystyriaeth ganlynol o'r eitemau hynny.

**9. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd?**

Nid oes angen rhai i'r adroddiad hwn. Fodd bynnag, mae'r adroddiad ei hun a'r ystyriaeth o'r rhaglen waith i'r dyfodol yn cynrychioli proses ymgynghori gyda'r Pwyllgor mewn perthynas â'i raglen waith i'r dyfodol.

**10. Pa risgiau sy'n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Ni nodwyd unrhyw risgiau mewn perthynas â'r ystyriaeth o raglen gwaith i'r dyfodol y Pwyllgor. Fodd bynnag, trwy adolygu ei raglen gwaith i'r dyfodol yn rheolaidd gall y Pwyllgor sicrhau bod y meysydd risg wedi'u hystyried a'u hastudio wrth iddynt ddod i'r amlwg, ac y gwneir argymhellion gyda'r bwriad o fynd i'r afael â'r risgiau hynny.

**11. Pŵer i wneud y penderfyniad**

Mae Erthygl 6.3.7 Cyfansoddiad y Cyngor yn amodi bod rhaid i bwyllgorau archwilio'r Cyngor baratoi ac adolygu rhaglen ar gyfer eu gwaith i'r dyfodol.

**Swyddog Cyswllt:**
Cydlynydd Archwilio
Rhif Ffôn: (01824) 712554
E-bost: csd_gweinyddol@sirddinbych.gov.uk